

# Cyngor Tref Criccieth

Cofnodion cyfarfod y Cyngor Tref a gynhaliwyd ar **nos Fawrth 12 Ionawr 2021 am 7.00 o'r gloch**. Cynhaliwyd y cyfarfod hwn o bell gan ddefnyddio technoleg fideo.

---

## 1-01/21: Presennol

Cadeirydd : Cyng. Robert Cadwalader

Cyng. Ffion Gwyn; Cyng. Angela Hughes, Cyng. Nan Davies Hughes; Cyng. Dr Peter Harlech Jones; Cyng. Phil Jones; Cyng. Wayne Roberts; Cyng. Sian Williams;

Clerc – Dr Catrin Jones.

Nodwyd gyda thristwch mawr farwolaeth y Cyng. Robert T Price a oedd wedi bod yn aelod ffyddlon o'r Cyngor Tref am dros 50 mlynedd ac yn Gadeirydd Cyngor Dwyfor cyn yr ad-drefn; cafwyd munud o dawelwch i gofio amdano.

## 2-01/21 Ymddiheuriadau:

Cyng. Eirwyn Williams;

## 3-01/21: Datgan diddordeb

- Cyng. Phil Jones **7-01/21 Ceisiadau cynllunio** - C20/1074/35/AC; **9-01/21: Ceisiadau Cefnogaeth Ariannol** – Menter y Plu
- Cyng. Nan Davies-Hughes **9-01/21: Ceisiadau Cefnogaeth Ariannol** – Menter y Plu
- Cyng. Peter Harlech Jones **10-01/21 Cynllun Cymunedol** Project Cae Crwn – Cais Cynllunio

## 4-01/21: Cadarnhau ac arwyddo cofnodion cyfarfod Rhagfyr 2020

Cadarnhawyd a llofnodwyd y cofnodion yn unol â'r gyfraith.

## 5-01/21 Eitemau brys ac er gwybodaeth (trwy law'r Cadeirydd/Clerc)

*Materion er gwybodaeth yn unig – ni chaniateir penderfyniadau*

1. Nodwyd bod rhybudd wedi ei osod bod y Cyngor Tref yn bwriadu llenwi'r sedd drwy gyfethol ac i wahodd ceisiadau drwy lythyr/e-bost i'r Clerc erbyn 31 Ionawr 2021.

## 6-01/21: Gohebiaeth

1. Cyngor Gwynedd – Covid-19 – ymateb re biniau i'r dref

Dal dim ymateb gan Swyddog Cyngor Gwynedd re biniau i'r dref.

Re Cynllun Covid-19 y Cyngor Tref roedd e-bost wedi dod gan Swyddog Cefnogi Cymunedau o Gyngor Gwynedd yn holi os oes angen help i gefnogi gweithgareddau a gwirfoddolwyr yn ystod y cyfnod clo presennol. Cadarnhaodd y Cyng. Nan Davies-Hughes nad oedd angen adnoddau a bod y drefn gefnogaeth wedi setlo a gweithio'n dda.

#### **Penderfyniad**

Derbyn yr adroddiad a diolch i'r Cyng. Nan Davies-Hughes a'r cyn-orthwyr am eu gwaith. Y Clerc i sgwennu i ddiolch iddynt.

2. Cais am gael Camera Cylch Cyfyng- Lôn Parc, Criccieth

Aros am adroddiad yn ôl gan Swyddog yr Heddlu.

#### **Penderfyniad**

Derbyn yr adroddiad.

3. Cyngor Gwynedd .– Grant i wella amgylchedd ffisegol ein trefi

**Heb glywed dim byd pellach gan Gyngor Gwynedd. Cafwyd adroddiad gan y gweithgor a oedd yn gweithio ar gostau ar gyfer gwelliannau i'r ardaloedd ger y Swyddfa Bost - amcangyfrif tua £6k**

**Nodwyd bod Swyddog Cyngor Gwynedd wedi cysylltu gyda'r Clerc i holi am ddyddiad ar gyfer tynnu goleuadau 'Dolig ger y Maes er mwyn tocio'r coed. Roedd y Clerc yn aros am ddyddiad gan y trydanwr. Roedd wedi achub ar y cyfle i son eto am gynllun 'piazza' ar gyfer gwella'r ardal o gwmpas y Maes a oedd yn fater o ddiogelwch y cyhoedd a gyrru copi o'r cynllun iddo.**

#### **Penderfyniad**

Diolch i'r gweithgor am ei gwaith. Y Clerc i ddanfon amcangyfrif costau i Gyngor Gwynedd ar gyfer gwaith ger y Swyddfa Bost a'r ardal gyfagos.

4. Cyngor Gwynedd - Meysydd Chwarae Plant–

**Aros am benderfyniad gan Gyngor Gwynedd.**

#### **Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth.

5. Un Llais Cymru – Rhaglen Hyfforddiant Ionawr 2021

Roedd y cyrsiau wedi eu cylchredeg

#### **Penderfyniad**

Aelodau i roi gwybod i'r Clerc os oeddynt am gofrestru.

6. Swyddfa Archwilio Cymru – Cylch Archwilio 3 blynedd

Roedd y Clerc wedi cylchredeg y manylion am y cylch archwilio 3 blynedd i'r aelodau. Bydd y Cyngor Tref yn cael archwiliad llawn o gyfrifon 2020/21.

**Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth

7. Cylch yr Iaith – Twristiaeth a Chyflogaeth

Roedd y papur wedi ei gylchredeg.

**Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth

### 7-01/21 Ceisiadau cynllunio

1. **C20/0182/35/LL Cais ar gyfer darparu llwybr troed cyhoeddus ar gyfer creu mynediad i faes parcio cyhoeddus Y Maes a man parcio gollwng tymor byr ar dir adfeiliedig i gefn Canolfan Crefft Criccieth - Roy Williams Slate Works, Criccieth Gwynedd, LL52 0HS**

**Penderfyniad**

Dim sylwadau.

2. C20/1074/35/AC Cais ar gyfer diwygio amod rhif 2 o ganiatâd cynllunio C16/0789/35/LL ar gyfer newid dyluniad y ddau eiddo bwriedig a'r safle 1, Antipodes Terrace Ffordd Caernarfon, Criccieth, Gwynedd, LL52 0BE

**Penderfyniad**

Gofyn i'r Adran Gynllunio am fanylion diwygio amod rhif 2.

### 8-01/21 Diweddariad Cyllid 2020-21

Roedd adroddiad ariannol y Clerc wedi ei gylchredeg i'r holl aelodau ac yn dangos Incwm a Gwariant cyllid yn erbyn y gyllideb fyny at ddiwedd Rhagfyr 2020 a'r cysondeb banc am y cyfnod. Nodwyd bod £21,100.24 wedi'i wario (gan gynnwys TAW) allan o'r £68,760 a oedd wedi ei neilltuo ar gyfer y gyllideb gyffredinol. Yn ogystal roedd hanner arian y Loteri wedi ei dderbyn ar gyfer Prosiect Cae Crwn ym mis Rhagfyr. (sef £10,400). O ganlyniad roedd £58,278.66 yn y cyfrif 'Community Account' a £30,525.00 yn y cyfrif 'Money Manager'. Roedd yna nifer o daliadau sylweddol ar gyfer y flwyddyn ariannol i ddod eto.

**Penderfyniad:**

Derbyn a diolch i'r Clerc am yr adroddiad.

## 9-01/21: Ceisiadau Cefnogaeth Ariannol

1. Nodwyd bod nifer o geisiadau wedi dod naill ai yn rhy hwyr, heb lenwi'r ffurflen neu heb ddanfôn y dogfennau oedd angen fel tystiolaeth.

Ystyriwyd ceisiadau o dan y pwerau a oedd gan y Cyngor Tref.

### Penderfyniad

O dan bŵer hyrwyddo Llesiant – Deddf Llywodraeth Leol 2000 A2:

Menter y Plu – dim cyfraniad

- O dan Bŵer A145:

Neuadd Goffa Criccieth - £10,000.00. - gofynnodd y Cyngor am y gwariant disgwylidig a gynlluniwyd ar waith sydd ei angen yn y Neuadd yn y dyfodol hyd y gellir rhagweld.

2. Cafwyd adolygiad o'r drefn o ystyried ceisiadau dwywaith y flwyddyn. Yn dilyn trafodaeth dylai'r Cyngor Tref mynd nôl i'r drefn o ystyried ceisiadau unwaith y flwyddyn.

### Penderfyniad –

O 2021/22 ymlaen i ystyried ceisiadau ariannol unwaith y flwyddyn - ceisiadau i mewn ar y ffurflen sydd wedi ei gymeradwyo gyda'r dystiolaeth erbyn diwedd Rhagfyr ac ystyried y ceisiadau yng nghyfarfod Chwefror.

## 10-01/21 Cynllun Cymunedol

### 1. Prosiect Cymunedol Cae Crwn

- Roedd y gwaith yn symud yn ei flaen a gobeithio casglu deunyddiau yn ystod y cyfnod clo fel bod modd cael pethe'n barod. Roedd yr adeiladwr am gychwyn gweithio ar y llwybr cyn gynted ag sy'n bosib pan fydd y tir yn caniatáu. Roedd dwy anfoneb hwyr wedi eu derbyn ers cyhoeddi'r agenda (Nestbox a Huws Gray). Cytunwyd i'w talu ar ddiwedd y cyfarfod.
- Roedd datganiad Gwasg wedi ei rhyddhau a disgwylir erthygl yn y Cambrian News yr wythnos hynny. Hefyd roedd darn wedi'i gyflwyno i'r Ffynnon.

### Penderfyniad

Derbyn yr adroddiad. Cytunwyd i dalu'r ddwy anfoneb hwyr ar ddiwedd y cyfarfod a hefyd i gyflwyno'r cais cynllunio i Gyngor Gwynedd gyda'r siec dal £190.

### 2. Map ar gyfer y dref

Aros i weld am ymateb Cyngor Gwynedd am ddefnydd grant gwella ein trefi ar gyfer gosod y map o gwmpas y dref

### **Penderfyniad**

Derbyn er gwybodaeth.

### **3. Adeilad yr Hen Lyfrgell**

Roedd y Clerc wedi e-bostio Cyngor Llanidan yn dilyn penderfyniad y cyfarfod diwethaf. Heb gael ymateb.

### **Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth.

### **4. Prosiect Cymunedol Newydd – Enwau, Chwedlau a Chan**

Roedd manylion wedi ei gyhoeddi yn y Ffynnon i holi unrhyw un sydd â diddordeb i e-bostio'r Clerc. Ceisio gweld beth sy'n bosib trefnu i gychwyn cysylltu gydag aelodau yn y gymuned - cyfarfod ar zoom i drafod ymhellach ar 20 Ionawr.

### **Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth.

### **11-01/21: Archwiliad Allanol 2019/20**

Roedd gohebiaeth y BDO wedi ei gylchredeg yn nodi ei bod wedi cwblhau'r archwiliad uchod ar 15 Rhagfyr 2020 a hefyd y ffurflen flynyddol ac adroddiad y BDO. Ar sail ei hadolygiad, yn ei barn nhw nid oedd unrhyw faterion wedi dod i'n sylw fyddai angen cyhoeddi adroddiad ychwanegol ar wahân yn manylu materion yn codi. Materion a godwyd:

- Nid oedd y ffigurau cymharol a ddatgelir yn Adran 1 y Ffurflen Flynyddol yn cytuno â'r Ffurflen Flynyddol a archwiliwyd ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019. Cafodd y ffigurau cymharol ar gyfer y flwyddyn ddaeth i ben ar 31 Mawrth 2019 eu hailddatgan. Rydym wedi adolygu'r newidiadau sydd wedi eu gwneud ac rydym yn fodlon eu bod yn gywir.
- Nid oedd y ffurflen flynyddol yn adio i fyny o £1.

Roedd hyn yn cael ei godi er mwyn dod â'r mater i sylw darllenwyr y ffurflen flynyddol. Doedd dim angen cymryd unrhyw gamau pellach.

Yn unol â'r gofynion bydd y Clerc yn postio'r rhybudd o ganlyniad ar safle We'r Cyngor gyda'r wybodaeth berthnasol.

### **Penderfyniad:**

Derbyn a chymeradwyo'r Ffurflen Flynyddol a nodi'r adroddiad. Y Clerc i bostio'r rhybudd a gwybodaeth ar y safle We a sgwennu i'r BDO i gadarnhau hyn gan ddiolch iddynt am ei gwaith archwilio. O hyn allan bydd Swyddfa Archwilio Cymru yn cynnal yr archwiliad allanol. Diolchwyd i'r Clerc am ei gwaith. Roedd anfoneb hwyr i dalu am y gwaith wedi ei dderbyn ers cyhoeddi'r agenda a chytunwyd i'w dalu ar ddiwedd y cyfarfod.

### **12-01/21: Llwybrau Cyhoeddus gan gynnwys Llwybr 11**

Dim byd i'w adrodd.

#### **Penderfyniad:**

Y Clerc i sgwennu at Swyddog Cyngor Gwynedd i holi am ddiweddariad.

### **13-01/21: Groynes ac Amddiffynfeydd Môr Criccieth**

Roedd e-bost wedi dod i law yn dweud bod y gwaith yn cychwyn. Y Clerc wedi diolch i Gyngor Gwynedd.

#### **Penderfyniad:**

Derbyn yr adroddiad

### **14-01/21: Trafnidiaeth yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd – aros am adroddiad Swyddog Cyngor Gwynedd

#### **Penderfyniad:**

Y Clerc i sgwennu at y Swyddog i ddiolch iddo am y cyfarfod ac i nodi y bydd y Cyngor Tref yn disgwyl adroddiad maes o law.

### **15-01/21: Torri gwair a gwrychoedd yn y dref**

Dim byd i'w adrodd.

### **16-01/21: Parcio yng Nghriccieth**

Dim byd i'w adrodd.

### **17-01/21: Torri Coed yng Nghriccieth**

Re anhawster i geir ar groesffordd yr Esplanade gyda Heol Porthmadog oherwydd tyfiant coed – aros am asesiad ac adroddiad Swyddog Cyngor Gwynedd.

#### **Penderfyniad:**

Derbyn er gwybodaeth.

### **18-01/21 Meinciau Tref Criccieth**

Dim byd i'w adrodd.

### **19-01/21 Derbyniadau**

### **20-01/21: Taliadau**

- |  |                        |
|--|------------------------|
| • Cyllid y Wlad Yswiriant Gwladol (PAYE) | £17.70 (siec 101436)   |
| • Cyflog Clerc (Rhagfyr)                 | £793.50 (siec 101437)  |
| • Cwmni Celyn Caernarfon Cyf             | £800.00 (siec 101438)  |
| • Archwilio Cymru                        | £255.10 (siec 101439)* |
| • R J Electrics                          | £360.00 (siec 101440)* |
| • The Nestbox Company Limited            | £492.00 (siec 101441)* |

- Huws Gray Limited £4165.48 (siec 101442)\*
- Neuadd Goffa Criccieth £10,000.00 (siec 101443)\*\*
- Cyngor Gwynedd £190.00 (siec 101444)\*\*

\*Biliau ychwanegol ers cyhoeddi'r agenda

\*\*Penderfyniadau yng nghyfarfod y Cyngor Tref

**Penderfyniad:**

Rhoddwyd caniatâd i'r Clerc i dalu'r biliau

---

Daeth y cyfarfod i ben 8.10 y.h.

**Cynhelir cyfarfod nesaf y Cyngor Tref ar Nos Fawrth 9 Chwefror 2021.**

**\*\*Bydd y rhaglen yn cau 1 Chwefror 2021\*\***

Dr Catrin Jones  
Clerc